# Polisi Amodau Eithriadol

Y Safonau a ddefnyddir i benderfynu os yw Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat mewn "cyflwr eithriadol". Dylai perchnogion cerbydau hefyd nodi fod y polisi yn atchwanegiadau i'r is-ddeddfau Cerbyd Hacni presennol ac Amodau Cerbyd Hurio Preifat.

1. Dylai corff y cerbyd a'r addurniadau allanol fod mewn cyflwr sydd fwy neu lai'n berffaith heb unrhyw ôl o ddirywiad ar y panel, dim tolciau, crafiadau, marciau cerrig mân neu rydu neu unrhyw grafiadau eraill a fyddai'n tynnu sylw rhywun o ymddangosiad y cerbyd yn gyffredinol.
2. Ni ddylai cyflwr paent cyffredinol ddangos unrhyw ôl pylu; afliwiadau neu liwiau sydd ddim yn cyd-fynd a fyddai'n tynnu sylw rhywun o ymddangosiad y cerbyd yn gyffredinol. Bod y pedair olwyn p'un ai'n aloi neu gyda trimiau olwyn yn cyd-fynd a heb gracio neu wedi'u difrodi.
3. Bod y trim mewnol, paneli, seddi a charpedi ac ati mewn cyflwr rhagorol, yn lân a heb unrhyw ddifrod, rhwygiadau, tyllau, staeniau neu afliwiadau.
4. Gellir defnyddio cofnod gwasanaethu cerbyd fel tystiolaeth gefnogol o gyflwr eithriadol lle mae cyflwr eithriadol fel arfer yn arddangos gwasanaethu a chynnal a chadw rheolaidd yn unol â manyleb gwasanaethu'r gwneuthurwr.
5. Bod cist y car neu'r caban bagiau mewn cyflwr da ac yn lân, sych a heb ddifrodi.
6. Ardal y teithwyr heb unrhyw wlybaniaeth neu unrhyw arogleuon eraill all achosi anesmwythdra i deithwyr. Dylai'r golau tu mewn i'r cerbyd fod yn gweithio'n iawn.
7. Rhaid i'r cerbyd fod mewn cyflwr mecanyddol rhagorol ac yn ddiogel ac yn addas i'r ffordd fawr heb unrhyw arwyddion o gancro yn y rhannau mecanyddol, ffrâm y cerbyd, o dan y cerbyd neu i gorff y cerbyd.

Efallai y bydd Swyddogion Awdurdodedig yn ei gweld yn angenrheidiol i gyflwyno cerbyd mewn gorsaf brawf ddynodedig am brawf cydymffurfedd.

Mae adran 68 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Addasrwydd Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn dweud:-

Bydd gan unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Cyngor dan sylw neu unrhyw Gwnstabl y pŵer ar amseroedd rhesymol i archwilio a phrofi'r cerbyd ar gyfer dibenion penderfynu ar addasrwydd unrhyw gerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat gyda thrwydded gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol neu unrhyw gloc tacsi wedi'i osod ar gerbyd o'r fath, ac os nad yw'n fodlon o addasrwydd y cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat neu gyda chywirdeb y cloc tacsi gall gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig yn gofyn i berchennog y cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat i gyflwyno'r cerbyd neu gloc tacsi i gael ei archwilio ymhellach a'i brofi ar amser a lle cyfleus fel y nodir yn yr hysbysiad, ac atal trwydded y cerbyd dros dro nes bydd y swyddog awdurdodedig neu gwnstabl yn fodlon gyda'r cerbyd neu gloc tacsi.